

Adnabod sgamiau ar-lein

Mae'r rhyngwrdd yn lle gwyh i archwilio a darganfod gwybodaeth newydd, ond mae rhai pethau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt i gadw'n ddiogel ar-lein.

Yn anffodus, mae sgamiau yn chwarae rhan fawr yn y byd digidol, felly mae dysgu sut i'w hadnabod a chadw'n ddiogel ar-lein yn hollbwysig. Bydd yn eich atal rhag cael eich twyllo a gwneud yn siŵr bod eich profiad o'r rhyngwrdd yn un pleserus

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Y mathau o sgamiau
2. Sut i'w hadnabod

Beth yw sgamio?

Rydym i gyd wedi clywed am bobl yn cael eu sgamio, ond beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd yn y byd digidol?

Sgam yw pan fydd rhywun yn ceisio eich twyllo i roi eich data personol, er enghraifft eich manylion banc. Yn gyffredinol, mae eu nod yn y pen draw yn un ariannol.

Mathau o sgamiau

Mae yna nifer o wahanol fathau y gallai sgamwyr geisio eich twyllo er mwyn cael eich gwybodaeth bersonol:

Gwe-rwydo (phishing) yw pan fydd sgamwyr yn defnyddio'r rhyngwrdd (e-bost fel arfer) i gael eich gwybodaeth bersonol.

SMS-rwydo (smishing) yw pan fyddant yn defnyddio negeseuon testun neu ar-lein.

Llais-rwydo (vishing) yw pan fyddant yn defnyddio galwadau ffôn.

Sut i sylweddoli os yw rhywun yn gwe-rwydo am wybodaeth ar-lein

Mae gwe-rwydo yn aml yn digwydd drwy e-bost a gall fod ar ffurf cynigion, cystadlaethau (cystadlaethau nad ydych wedi cymryd rhan ynddyn nhw) neu geisiadau brys am wybodaeth.

Mae'r sgamiwr yn ceisio cael gwybodaeth sensitif, er enghraifft cyfrineiriau a manylion banc gan eu dioddefwr. Os byddwch yn derbyn neges ar-lein yn gofyn am hyn ac nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn, siaradwch gyda rhywun rydych yn ymddiried ynddyn nhw. Ni ddylech rannu unrhyw wybodaeth bersonol oni bai eich bod yn siŵr bod popeth fel y dylai fod.

Rhai o'r arwyddion sicr y gallai neges e-bost fod yn we—rwydo yw camgymeriadau sillafu a pheidio cyfeirio atoch yn bersonol. Bydd hofran dros ddolenni yn dangos cyfeiriad llawn y wefan i chi a'ch galluogi i weld a yw hyn yn cyfateb â gwefan go iawn y sefydliad hwnnw. Gallwch hefyd wneud yr un peth i wirio'r cyfeiriad e-bost y daeth y neges ohono a gweld a yw hynny'n edrych yn gyfreithlon.

Adnabod sgamiau ar-lein parhad

Rhy dda i fod yn wir?

Byddwch yn ymwybodol y gallai sgamwyr ddefnyddio gwobr neu gynnig i'ch cael i gyfathrebu gyda nhw drwy e-bost neu neges destun neu alwad ffôn. Byddant yn debygol o gynnig gwobr neu fargen a fydd yn 'newid bywyd' a byddant eisïau i chi 'glicio' ar ddolen i roi gwybodaeth bersonol neu eich manylion banc. Ni ddylech fyth wneud hyn!

Peidiwch â chael eich twyllo gan gymeradwyaeth enwogion ar gyfer y cynigion hyn 'chwaith. Mae delweddu enwogion yn aml yn cael eu rhannu heb eu caniatâd ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau na fyddent yn eu cefnogi.

Gweithredu ar unwaith

Dylech bob amser osgoi negeseuon e-bost / negeseuon lle mae angen gwneud rhywbeth ar unwaith, er enghraifft hawlio gwobr sy'n dod i ben neu glicio dolen. Os yw'r fargen yn wir, bydd gennych amser i fynd i ffwrdd a chadarnhau'r fargen gyda rhywun arall cyn penderfynu bwrw ymlaen. Mae sgamwyr wrth eu boddau'n defnyddio'r tric hwn i ddal pobl ar foment wan a gwneud iddyn nhw deimlo o dan bwysau i ymrwymo.

Osgoi'r annisgwyl

Byddwch yn wyliadwros os byddwch yn derbyn e-bost gan sefydliad nad ydych yn disgwyl derbyn neges ganddynt. Bydd sgamwyr yn smalio eu bod o gwmni neu fusnes proffil uchel y gallant fod yn gyfarwydd â nhw. Mae'n annhebygol iawn y byddai sefydliad yn cysylltu â chi'n annisgwyl a gofyn i chi am fanylion personol fel manylion eich cyfrif.

Os bydd gennych unrhyw amheuan, chwiliwch am rif ffôn ar gyfer y cwmni o ffynhonnell arall (fel Google neu gyfeiriadur) a siarad â'r sefydliad yn uniongyrchol i weld a ydyn nhw wedi bod yn ceisio cysylltu â chi mewn gwirionedd.

Osgoi'n llwyr

Ni ddylech fyth rannu eich cyfrineiriau neu fanylion personol gydag unrhyw un nad ydych yn siŵr ohonyn nhw.

Gwnewch yn siŵr bod eich cyfrineiriau yn gadarn er mwyn atal pobl rhag cael mynediad i'ch cyfrifon.

Dylai cyfrinair cadarn gynnwys cymysgedd o lythrennau, rhifau ac atalnodau, po fwyaf ar hap y gorau.

Gellir defnyddio gwybodaeth bersonol fel dyddiad geni, enw llawn, cyfeiriad ac yn y blaen i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar sgamwyr.

Rhoi gwybod ar unwaith

Os ydych yn credu bod gan sgamiwr posibl eich manylion banc, cysylltwch â'ch banc a rhoi gwybod iddyn nhw ar unwaith.



Dolenni i ddysgu pellach

Gallwch chi roi gwybod am seiberdrosedd bosib yn www.actionfraud.police.uk. Cliciwch y ddolen honno neu deipio'r cyfeiriad yn eich porwr.

Hefyd mae rhagor o wybodaeth am osgoi sgamiau ar gael yma: <https://abilitynet.org.uk/factsheets/internet-scams-and-how-to-avoid-them>. Eto, cliciwch y ddolen honno neu chwilio am y canlynol yn eich porwe gwe, a dewis y canlyniad cyntaf: 'Internet scams and how to avoid them – Ability Net'